Torfaen Childcare Business Support Team

Tim Cymorth Busnes Gofal Plant Torfaen

CAMAU AT DDOD YN WARCHODWR PLANT COFRESTREDIG

1. Cysylltwch â Thîm Cymorth Busnes Gofal Plant Torfaen i gadw lle mewn sesiwn briffio 'Dod yn Warchodwr Plant' – ffôn: 01633 648114/01633 648115

Mae dyddiadau'r sesiynau yn y pecyn hwn.

2. Cwblhewch yr arolwg amgaeedig **y mae'n rhaid i chi ei ddod gyda chi i'r sesiwn briffio.**

3. Dewch i'r sesiwn briffio ble cewch wybodaeth a chanllawiau ynglŷn â dod yn warchodwr plant cofrestredig, a chewch gyfle i ofyn cwestiynau. Ar ôl y cyfarfod, bydd ymgeiswyr yn cael cyngor ar ariannu'r cwrs CYPOP5 Cyflwyniad i Ymarfer Gofal Plant (yn y cartref).

4. Cysylltwch â'r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) ar 0845 880 1299 i nodi'ch diddordeb mewn lle ar gwrs CYPOP5.

5. Dychwelwch y ffurflenni i PACEY.

6. Ewch i wefan AGC: www.cssiw.wales.gov.uk i lawrlwytho'r ffurflenni cais i fod yn warchodwr plant gyda'r canllawiau.

7. Cwblhewch y cwrs CYPOP5.

8. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Gofal Plant ar 01633 648114/01633 648115 i drefnu ymweliad cefnogaeth.

9. Cwblhewch gwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig

10. Cwblhewch a dychwelwch bob rhan o'r cais i AGC.

11. Bydd AGC yn cysylltu â chi i drefnu bod arolygydd yn ymweld â'ch cartref. Bydd angen iddyn nhw sicrhau eich bod yn addas i warchod plant a bod eich cartref yn ddiogel ac yn addas i blant.

12. Cysylltwch â'r Swyddog Datblygu Gofal Plant i gwblhau ffurflen Dechrau o Ansawdd PACEY ffurflen ar gyfer eich aelodaeth a'ch yswiriant.

13. Pan fydd yr arolygwr yn fodlon bod pob dim wedi ei gwblhau, cewch hysbysiad o'ch cofrestriad a byddwch yn derbyn eich tystysgrif cofrestru gan AGC.

Llongyfarchiadau. Gallwch ddechrau gwarchod plant!

Mae Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant Torfaen yma i'ch helpu trwy'r broses gofrestru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Service